DIWEDDARIAD CYNHYRCHU
RHAGLENNI TELEDU YNG NGHYMRU
MAWRTH 2024

Angen sefydlogrwydd a chadw annibyniaeth S4C

Dyfrig Davies, Cadeirydd TAC, yn ysgrifennu am y digwyddiadau yn S4C a barn y sector cynhyrchu annibynnol

Mae digwyddiadau S4C wedi bod yn y penawdau yn ddiweddar. Gyda 30 o aelod-gwmnïau yn y sector annibynnol yng Nghymru, prif bryder TAC oedd a fyddai newidiadau i'r uwch reolwyr yn arwain at darfu ar allu ein sector i barhau i ddarparu amrywiaeth eang o raglenni o ansawdd uchel i'r gwasanaeth.

Ysgrifennodd S4C at ein haelodau i roi sicrwydd ei bod yn gweithredu polisi comisiynu cwbl meritocrataidd ac nid ydym wedi cael unrhyw gwynion ffurfiol gan aelodau ynglŷn â threfn gomisiynu S4C. Mae'r swyddogion gweithredol presennol sy'n rhedeg S4C ac yn goruchwylio ei chomisiynu, yn ein barn ni, wedi gwneud gwaith da iawn.Er y bydd proses bellach i benodi Cadeirydd a swyddogion gweithredol newydd, mae TAC yn glir iawn yn y pen draw bod yn rhaid i S4C barhau i fod yn wasanaeth cyfryngau cwbl annibynnol, gan ganiatáu iddi ganolbwyntio'n llawn ar ei chenhadaeth i hybu'r Gymraeg a helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Ers 40 mlynedd a mwy, mae S4C wedi llwyddo i ddarparu gwasanaeth o safon a bydd yn gryfach gan y bydd y Bil Cyfryngau'n gweithredu argymhellion adolygiad annibynnol S4C yn 2017. Wrth gwrs, daeth yr adolygiad hwnnw i'r casgliad, er y dylai S4C sicrhau bod partneriaethau - gan gynnwys gyda darlledwyr eraill a sefydliadau creadigol - mor adeiladol â phosibl; "ni ddylai'r bartneriaeth hon danseilio statws S4C a'r goblygiadau presennol fel darlledwr annibynnol gwasanaeth cyhoeddus." Mae TAC yn cytuno'n llwyr ac yn edrych ymlaen at weithio gydag S4C annibynnol wrth symud ymlaen o dan arweinyddiaeth newydd.

TAC yn ymddangos gerbron pwyllgor y Senedd ynghylch newid yn y berthynas â'r UE

Ym mis Chwefror ymddangosodd Cadeirydd TAC Dyfrig Davies gerbron y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol i drafod effaith newid yn y berthynas rhwng y DU a'r UE. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys rheolau newydd ychwanegol ynghylch symud staff a thalent, yn ogystal â cholli mynediad at gyllid yr UE gan gynnwys y rhaglen MEDIA. Gallwch wylio'r sesiwn yma: https://bit.ly/3uH38td.

TAC yn galw ar Ofcom i godi cwotâu Channel 4 y tu allan i Lundain

Mae TAC wedi ymateb i Ofcom ynglŷn â'i drwydded newydd arfaethedig i Channel 4 gynnal ei 'sianel linol' graidd. Mae Ofcom yn cynnig cadw gofynion comisiynu Channel 4 y tu allan i Lundain yn 35%. Mae TAC yn credu nad yw hyn yn addas i'r diben, gan nad yw'n adlewyrchu ymrwymiad gwirfoddol Channel 4 ei hun i 50% o wariant y tu allan i Lundain. Mae TAC felly yn galw am godi'r cwota i o leiaf 45%. Mae TAC hefyd yn galw am gyfran gwariant Channel 4 ym mhob gwlad i gyd-fynd â'r rhai gan y BBC, sy'n ofynnoli Ofcom ddyrannu o leiaf 5% o'i wariant ar raglenni i Gymru. Mae Ofcom hefyd yn bwriadu gostwng lefel y comisiynau gwreiddiol ar y gwasanaeth o tua 20% er mwyn caniatáu hyblygrwydd i Channel 4 i fuddsoddi mwy mewn cynnwys digidol. Er bod TAC yn cydymdeimlo â hyn rydym yn galw am ostyngiad is o tua 10%. Mae ymateb llawn TAC yma: bit.ly/49BAB7q.

TAC yn parhau i drafod '*brass plating*' (sef y duedd gynyddol ble mae cwmnïau o'r tu allan i Gymru yn symud i Gymru ac agor swyddfa dros dro er mwyn bodloni canllawiau Ofcom i ennill comisiwn ar gynyrchiadau sy'n cael eu gwneud yng Nghymru).'

Mae TAC yn parhau i ofyn a yw'r meini prawf a'r gwaith monitro cwmnïau sy'n gymwys fel rhai 'y tu allan i Lundain' - ac felly'n helpu i fodloni'r cwotâu a osodwyd ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus - yn ddigon cadarn. Yn dilyn ymddangosiad TAC o flaen y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig y llynedd, dywedodd adroddiad y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru: *"Brass-plating allows broadcasters to meet their regional production criteria while using production companies that may not be based in Wales. Ofcom acknowledges that relying on the "substantive base" criterion alone provides an opportunity for the system to be manipulated. We recommend that Ofcom examine whether this criterion alone should be sufficient to qualify a production as being based in Wales. We call on the Government to amend the Draft Media Bill to address this problem".*

Mae TAC wedi gohebu â DCMS ac mae'n trafod y mater gydag Ofcom yn ogystal â'r darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn dod o hyd i ffyrdd i gael mwy o dryloywder ynghylch a yw cwmnïau'n wirioneddol fodloni'r meini prawf angenrheidiol. Cafodd gwelliannau i'r Mesur Cyfryngau, tynhau gofynion Ofcom, eu cyflwyno gan Hywel Williams, AS Plaid Cymru. Mae TAC hefyd yn argymell bod Ofcom yn adolygu ei feini prawf y Tu Allan i Lundain a bod ei gofrestr o gynyrchiadau y Tu Allan i Lundain yn cael eu hychwanegu at ei Gynllun Blynyddol drafft ar gyfer 2024-25.

TAC a phartneriaid yn cynnal ail ddigwyddiad 'Concro'r Byd' i ddatblygu gweithgarwch rhyngwladol y sector cynhyrchu yng Nghymru Cynhaliodd TAC, S4C, Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU a Phrifysgol Bangor ail ddigwyddiad 'Concro'r Byd' ym mis Tachwedd 2023 ym Mhrifysgol Bangor, i roi cyngor a chymorth ymarferol i gwmnïau cynhyrchu o Gymru fod yn fwy hyderus wrth ystyried cyfleoedd mewn marchnadoedd rhyngwladol. Yn ogystal â mynd i'r afael â dosbarthiad rhaglenni rhyngwladol yn ystod y sesiwn, rhoddwyd sylw i ffrydiau ariannu sy'n cefnogi cwmnïau i ehangu'n rhyngwladol.

Roedd y digwyddiad yn un estynedig, o ran cyfraniadau a maint y gynulleidfa, i gymharu â'r un a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Mawrth y llynedd. Dywedodd y cynrychiolwyr fod y cyflwyniadau'n ddefnyddiol iawn ac roeddent hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd rhwydweithio a oedd ar gael yn ystod y dydd. Byddwn yn parhau i weithio ar ddigwyddiadau eraill fel hyn i wneud y mwyaf o'r potensial i gwmnïau o Gymru weithio'n rhyngwladol.

Partneriaethau TAC eraill

Mae partneriaeth hyfforddi TAC ag S4C yn parhau ac ers 2019, mae wedi darparu 108 o gyrsiau gyda chyfanswm o 1,599 o staff cwmnïau cynhyrchu a gweithwyr llawrydd wedi cofrestru. Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda sefydliadau amrywiol fel CULT Cymru, 6ft From the Spotlight a'r Elusen Ffilm a Theledu i hyrwyddo cymorth iechyd meddwl sydd ar gael i'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant cynhyrchu. Mae TAC hefyd wedi bod yn trefnu cyrsiau rheolaidd gyda BAFTA i hyrwyddo cynaliadwyedd ym maes cynhyrchu.

TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru) yw corff aelodaeth cwmnïau cynhyrchu teledu annibynnol yng Nghymru. Mae tua 50 o gwmnïau yn y sector, yn amrywio o unig fasnachwyr i rai o'r prif gwmnïau yn y diwydiant cynhyrchu teledu yn y DU. Maent yn cynhyrchu cynnwys ar gyfer y BBC, ITV, Channel 4, Channel 5 a Sky yn ogystal â darlledwyr masnachol eraill a darparwyr cynnwys. Maent hefyd yn ymwneud â nifer o gyd-gynyrchiadau rhyngwladol ac yn cynhyrchu'r rhan fwyaf o'r rhaglenni gwreiddiol a ddarlledir ar wasanaeth Cymraeg S4C. Mae aelodau TAC hefyd yn cynhyrchu cynnwys radio ar gyfer y BBC ac eraill.

Mwy yn www.tac.cymru.

Cyswllt: **Sioned.Harries@tac.cymru**